ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ysgolion Bro

Wyddoch chi fod....

**32%** o blant Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol?



**Gall hyn gael effaith ar:**

## Sgiliau iaith a llythrennedd

Mae **33%** o blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn byw mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol uchel.


## Presenoldeb yn yr ysgol

**-7.3 pwynt canran** yw'r gwahaniaeth o ran presenoldeb yn yr ysgol yng Nghymru rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys.

## Cyrhaeddiad TGAU

**29.3 pwynt canran** graddau A* i C is yn 2024 i 2025 ar gyfer plant yng Nghymru sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na'r rhai nad ydynt yn gymwys.

**Mae Ysgolion Bro yn rhan hollbwysig o'n gwaith wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.**




**Gall Ysgolion Bro helpu i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol drwy:**

- Cefnogi cysylltiadau cryf rhwng ysgolion a theuluoedd er mwyn helpu plant i ddysgu a bod yn uchelgeisiol, a chefnogi eu presenoldeb yn yr ysgol.
- Cefnogi teuluoedd i helpu eu plant i ddysgu yn y cartref a gwella'r amgylchedd dysgu yn y cartref.
- Annog sgyrsiau am ddysgu.
- Cynnig cyfleoedd dysgu cysylltiedig rhwng y cartref, yr ysgol a'r gymuned.
- Helpu i leihau effaith y pandemig ar ddysgu.
- Darparu gwasanaethau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd uchel.
- Cydweithio gyda'r gymuned.
- Darparu cysylltiadau â gwasanaethau cymorth ehangach gan sicrhau gwell hygyrchedd i deuluoedd a phlant.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y **canllawiau Ysgolion Bro**

OGL © Hawlfraint y Goron Llywodraeth Cymru 2026, WG54234